PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 23 | Mehefin 6, 2024 | 50c.

## Trychineb ym Mhapua Guinea Newydd



Yn sgil glawogydd trymion ar un o ynysoedd Papua Guinea Newydd y mae tirlithriadau difrifol wedi claddu cannoedd o gartrefi yn ucheldir Enga. Amcangyfrifir bod 140 o gartrefi o dan y llaid ac oddeutu 600 o bobl wedi eu lladd. Y mae'r gwasanaethau brys yn cael trafferth i gyrraedd yr ardal gan ei bod yn erwin ac anhygyrch. Y mae Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang yn galw arnom i weddïo dros y sefyllfa. Isod y mae gweddi wedi ei haddasu gan y Parchg Robin Samuel sydd o gymorth i ni ganolbwyntio ar y sefyllfa.


### GWEDDI DROS DDIODDEFWYR Y TIRLITHRIAD A'U TEULUOEDD YM MHAPUA GUINEA NEWYDD.

Dduw trugarog, down atat â chalonnau'n llawn galar a thosturi dros bobl Papua Guinea Newydd. Cyflwynwn i ti y cymunedau a ddifrodwyd gan y tirlithriad diweddar ynghyd ar hai sy'n gweithio i achub bywydau.

Rhannwn alar ein chwiorydd a'n brodyr yn Nhalaith Enga a gweddïwn y bydd y cymorth a'r achubiaeth sydd fawr ei angen yn cyrraedd y cymunedau yno mewn pryd.

*parhad ar dudalen 2*

## Llywydd newydd



Cafodd y Parchg Jill-Hailey Harries, Abertawe, ei hurddo yn Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru fel olynydd i'r Parchg Simon Walkling.

Rydym yn ddiolchgar i Jill-Hailey am ei pharodrwydd i ymgymryd â'r swydd yn ein henw fel Annibynwyr a dymunwn fendith Duw arni dros dair blynedd ei llywyddiaeth.

Llongyfarchion calonnog a phob dymuniad da.

## Cysurwr






Ar Sul y Pentecost yn Saron, Creunant cynhaliwyd Parti Pentecost Cymunedol ar dir y capel. Daeth llawer o bobl o'r gymuned leol i fwynhau bwyd o'r barbeciw blasus ynghyd â lluniaeth amrywiol. Cafwyd cacennau danteithiol yn y festri. Yng ngardd y capel roedd castell neidio a gweithgareddau plant – yn amrywio o beintio cerrig mân i luniadau a chrefftau'r Pentecost.

Atgoffodd Rhys y gynulleidfa am arwyddocâd pwysig dydd y Pentecost i ni fel Cristnogion. Siaradodd am yr hanes cyffrous yn Actau 2 gan gyflwyno'r Ysbryd Glân fel cysurwr ac am ben-blwydd yr Eglwys Fyd-eang. Braf oedd gweld cymaint yn dathlu gyda ni.

## Trychineb ym Mhapua Guinea Newydd – parhad

Gweddïwn y deuir o hyd i fwy o bobl yn fyw a bydd teuluoedd yn gyflawn unwaith eto.

Dduw cariad, gofynnwn i Ti fwrw dy gysgod dros y rhai a gollodd anwyliaid, cartrefi a bywoliaethau.

Dyro gysur i'r rhai sy'n profi tor-calon a heddwch i rai sy'n llawn ofn a phryder.

Gweddïwn dros ein chwiorydd a'n brodyr yn Eglwys Unedig Papua, Guinea Newydd, ar iddynt fod yn begynau gobaith ac yn ffynonellau cysur. Bendithia eu hymdrechion,

ynghyd ag ymdrech llywodraethau canolog a lleol, staff meddygol, a'r holl wirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddiflino i ddarparu cymorth a rhyddhad. Rho iddynt ddoethineb, amynedd, a gwydnwch wrth iddynt wasanaethu eu cymunedau.

Gweddïwn hefyd am ymateb ar frys gan y llywodraeth a'r eglwysi i'r argyfwng ym Maip Mulitaka. Bydded i bob un blygu glin mewn gweddi dros yr ardaloedd a effeithir, a chynnig pob cymorth a help posibl.

Dduw'r iachawr, yn wyneb dinistr a cholled, bydded i'th bresenoldeb fod yn amlwg.

Bydded i'th gariad lifo drwy bob llaw sy'n helpu ac ymhob gweithred o garedigrwydd. Cynorthwya pobl Papua Guinea Newydd i fedru ailadeiladu eu bywydau a'u cymunedau gyda dewrder a ffydd.

Dduw'r Creawdwr, iachâ dy greadigaeth a phob peth byw yn Maip Mulitaka. Adfer y tir a'r amgylchedd a ddifrodwyd gan y trychineb hwn.

Bydded i'th gyffyrddiad iachusol gyrraedd pob creadur a effeithir, gan adnewyddu a chynnal bywyd ynghanol y difrod hwn.

Ymddiriedwn yn y cariad a'r trugaredd dwyfol nad yw'n pallu, gan gredu y gelli di ddwyn prydferthwch o'r llwch a throi'r digalondid yn obaith. Erys ein gobaith a'n ffydd yng Nghrist ein Harglwydd.

Bydded i'th oleuni ddisgleirio ym Mhapua Guinea Newydd, yn awr a hyd byth.

Gweddïwn yn enw Iesu. Amen.

# Grand Rapids, Michigan

*Adroddiad byr o Bwyllgor Gweinyddol Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd, Grand Rapids, UDA: 16–23 Mai 2024.*

Mis Mehefin 2010 oedd y tro cyntaf i mi ymweld â Choleg Calfin (Prifysgol Calfin erbyn hyn) yn Grand Rapids, Michigan, UDA. Y tro hwnnw, roeddwn yno gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol ar y pryd, y Parchedig Ddr Geraint Tudur, wrth iddo ar ran Undeb yr Annibynwyr Cymraeg arwyddo dogfen sefydlu Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd (*WCRC*). Daeth y Cymundeb i fodolaeth yn sgil uno Cynghrair Eglwysi Diwygiedig y Byd (*WARC*) a'r Cyngor Eciwmenaidd Diwygiedig (*REC*). Atgof mawr y cyfarfod hwnnw oedd profi corwynt (hyrddwynt) yn oriau mân y bore!

Ychydig feddyliais ar y pryd y byddwn 'nôl yn Grand Rapids yn 2024 fel aelod o Bwyllgor Gweinyddol y Cymundeb ac yn un o'r tri a etholwyd i gynrychioli eglwysi diwygiedig Ewrop. Mae'r Cymundeb wedi tyfu er 2010. Erbyn hyn mae'n cynrychioli rhyw 100 miliwn o Gristnogion o 233 enwad ac undeb, o 105 gwlad.

### Lleoliadau byd-eang

Er 2017, pan gefais fy ethol yn aelod o'r Pwyllgor Gweinyddol yn y Gymanfa Gyffredinol yn Leipzig, yr Almaen, rydym fel pwyllgor wedi cyfarfod yn Seoul, Corea; Johannesburg, De Affrica; Kappel am Albis, y Swistir (lle lladdwyd Huldrych Zwingli, un o arweinyddion y Diwygiad Ewropeaidd, yn 1531); ynghyd â dwywaith ar-lein adeg y pandemig.



Eleni, oedd ein cyfarfod olaf cyn y Gymanfa Gyffredinol yn Chiang Mai, yng Ngwlad Tai yn Hydref 2025. Paratoi ar gyfer y cyfarfod hwnnw oedd ein prif waith.

### Gwarchod y cread

Sonnir yn aml mai teithio ar draws y byd yw 'narcotig eciwmeniaeth'; penderfyniad o bwys yn Grand Rapids oedd bod y Pwyllgor Gweinyddol wedi derbyn yn unfrydol y Polisi Teithio mae'r Gweithgor Degawd Cyfiawnder Hinsawdd, rwy'n cael y fraint o fod yn gymedrolwr arno, wedi bod yn gweithio arno ers rhyw ddwy flynedd. Bydd gweithredu'r polisi yn lleihau'n sylweddol y teithio a wna staff a chynrychiolwyr y Cymundeb. O hyn allan bydd rhaid cyfiawnhau pob taith ac egluro pam na all cyfarfod ar-lein gwblhau'r gwaith angenrheidiol. Yn ychwanegol, tra deallir bod sicrhau *koinonia* y Gymanfa Gyffredinol bob 7 mlynedd yn holl bwysig i fodolaeth y Cymundeb, o hyn allan disgwylir i o leiaf hanner cyfarfodydd pob pwyllgor a gweithgor arall fod ar-lein.

### Byw ein ffydd

Yn ei hanerchiad agoriadol tanlinellodd Llywydd y Cymundeb, y Parchedig Najla Kassab o Lebanon, bwysigrwydd dalifyndrwydd (defnyddiaf un o hoff eiriau gweinidog eglwys Minny Street) ein tystiolaeth. 'Heddiw,' meddai, o gofio cychwyniad y Cymundeb yn 2010, 'rydym yn dathlu sut mae'r Arglwydd wedi bod yn teithio gyda'r Cymundeb wrth iddo dramwyo'r llwybr o ddod yn "dŷ ysbrydol" i lywio taith ein byd.' Soniodd, gan ddefnyddio enghreifftiau byd-eang, am bwysigrwydd byw ein hysbrydolrwydd ar y strydoedd, ymhlith y rheini sy'n cael eu clwyfo a hefyd ymysg pawb sy'n ei chael yn anodd goroesi. 'Mae dyfalbarhad yn golygu gwneud yr hyn sy'n iawn a pheidio byth ag ildio i demtasiwn neu brawf,' meddai – dyna'r her i Gristnogion 2024.

### Cyfamod Cyfiawnder

Derbyn a chynnig sylwadau ar ddogfennau trafod sydd wedi bod yn cael eu paratoi ar gyfer y Gymanfa Gyffredinol fu ein prif waith. Bwriedir cyflwyno chwe thema i drafodaeth a dirnadaeth y Gymanfa: Cymundeb Cristnogol, Cyfamod Cyfiawnder, Cenhadaeth, Cysylltiadau Eciwmenaidd a Rhyng-grefyddol, Pobl Gynhenid ac yn fwy cyffredinol thema yn ymwneud â Diwinyddiaeth y Credo Diwygiedig. Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi bod mewn trafodaethau gyda rhyw hanner dwsin o gyd-Gristnogion wrth i ni baratoi'r ddogfen ar Gyfamod Cyfiawnder. Bu'n fraint cael cyd-drafod gyda chyfeillion o'r Cenhedloedd Unedig, y Fforwm Cristnogol Byd-eang, Cyngor Eglwysi'r Byd a Chyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM).

*bydd y rhan nesaf o'r erthygl yma yn rhifyn wythnos nesaf*

Yr Adran Gydenwadol

MEHEFIN 6 2024 RHIF 171

# Mwynder Maldwyn ym Meifod



Plant ysgol Sul Llanfair Caereinion yn peintio ewinedd



Euron yn arwain y gwasanaeth gyda'i gap pêl-droed



Plant yr ysgol Sul yn cyflwyno eitem yn yr oedfa

Ychydig ddyddiau cyn dechrau'r cystadlu brwd ar faes Eisteddfod yr Urdd ym Meifod eleni cyhoeddodd yr Urdd fod dros 100,000 o blant ac ieuenctid yn cystadlu – y ffigwr uchaf erioed, a'r tro cyntaf iddynt groesi trothwy'r chwe ffigwr. Cafwyd wythnos wych o gystadlu yn ôl yr arfer, a bwrlwm ar y maes gyda Gwŷl Triban, y lle chwaraeon, celf a chrefft, sioeau plant ac ieuenctid, sioeau Cyw, a llawer iawn mwy. Er gwaetha'r glaw a'r mwd ddechrau'r wythnos, wnaeth hynny ddim amharu ar ysbryd yr ŵyl.

**Oedfa'r Urdd yn Llanfyllin**

Cynhaliwyd oedfa i roi cychwyn i'r eisteddfod, a hynny yng nghapel Pendref, Llanfyllin, wedi ei threfnu gan y Parch. Euron Hughes. Braf oedd gweld bwrlwm ac afiaith y criw ifanc yn yr oedfa honno, a'r capel yn gyffyrddus lawn. Dewiswyd y thema 'Gorau chwarae, cydchwarae' gan Euron – nid yn annisgwyl o gofio am ei ddiddordeb angerddol ym myd y bêl-droed. Cawsom ein tywys ar daith o gydweithio ar y ddeiseb heddwch gan ferched Cymru gan mlynedd yn ôl, cydweithio rhwng Ann Griffiths a'i morwyn, Ruth Evans, ac eraill i ddiogelu cofnodi emynau llafar Ann, a'r cydweithio trwy rannu neges heddwch yr Urdd ar hyd a lled y byd.

Mae cyfle i wrando ar yr oedfa drwy fynd i wasanaeth gwrando eto BBC Cymru. Wedi'r gwasanaeth, fe wahoddwyd pawb yn ôl i dafarn y Cross Keys, canolfan sydd bellach yn gaffi cymunedol, yn fanc bwyd, yn gapel ar y Sul ac yn ofod gweddi weddill yr wythnos. Diolch am weledigaeth Shan a Darren yn gwasanaethu'r gymuned yn y ffordd ymarferol hon. O na bai mwy o fentrau tebyg i'r Cross Keys gennym yng Nghymru.

**Pabell yr Ysgolion Sul**

Ymhlith y bwrlwm ar y maes yn ôl yr arfer yr oedd gweithgaredd Pabell yr Eglwysi, o dan nawdd Cytûn a'r Cyngor Ysgolion Sul. Cafwyd cefnogaeth yr eglwysi lleol, a bu llawer o selogion yr ysgolion Sul lleol yn gwirfoddoli o fewn y babell wrth groesawu miloedd o blant i mewn atom. Cafwyd arddangosfeydd o waith ysgolion Sul lleol yn Llanfair Caereinion a Llanbryn-mair, a chyfraniad gan nifer o ysgolion a fu'n cydweithio â Chymorth Cristnogol. Yn ogystal â hynny, yr oedd arddangosfa gan Ymddiriedolaeth Ysgolion Impact, elusen sy'n gweithio i rannu'r Efengyl ymhlith plant ac ieuenctid y sir drwy'r ysgolion lleol.

Roedd cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, a hynny mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol, oedd yn rhannu gofod â ni. Daeth miloedd o blant i mewn atom i sgwrsio a manteisio ar y gweithgareddau, gan gynnwys salon peintio ewinedd dan ofal plant ysgol Sul Llanfair, peintio wynebau a chyfle i nyddu gwlân coch, gwyn a gwyrdd i greu nod llyfr. Rhannwyd rhai miloedd o fferins a chartons diod i blant, yn ogystal â phaned a chacen gri i'r oedolion. O fewn stondin Cymorth Cristnogol yr oedd cyfle i greu posteri heddwch ac arwyddo deisebau amrywiol.

Bu hefyd yn braf cyfarfod nifer o athrawon ysgolion dyddiol ac athrawon ysgolion Sul er mwyn rhannu am yr adnoddau sydd ar gael i gyflwyno storïau Beiblaidd a hanes ein ffydd i blant ac ieuenctid. Daeth tri pherson atom yn ystod yr wythnos i brynu adnoddau er mwyn sefydlu Llan Llanast – o Benmaen-mawr, Maelor a'r Rhondda. Yn yr un modd cafwyd sawl sgwrs am sefydlu ysgolion Sul newydd, a dymunwn yn dda iddynt ar eu mentrau.

**Dyheu am heddwch**

Wrth i blant Cymru fwynhau eu hunain ar y maes fe'n hatgoffwyd gan Iestyn Tyne o lwyfan y brifwyl fod miloedd o blant yn dioddef yn enbyd yn Gasa ar hyn o bryd, a bywydau'n cael eu colli'n ddyddiol. Bob dydd am 11 o'r gloch cafwyd cyfle ar ein stondin i ddarllen Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, a braf oedd cael croesawu person ifanc i wneud hynny.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Mwynder Maldwyn ym Meifod*
*(parhad o dudalen 1)*

Ar y dydd Mercher, cafwyd cwmni Lois o Gaerdydd, oedd yn un o'r criw fu'n gyfrifol am baratoi'r neges yn wreiddiol. Yna, ar y nos Wener roedd yr Urdd wedi trefnu gwylnos dros y sefyllfa yn Gasa, a braf oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd i sefyll dros heddwch a galw am gadoediad. (Cawn fwy o hanes yr wylnos yn y rhifyn nesaf.)

Diolch am wythnos lwyddiannus, ac am gwmni gwirfoddolwyr lleol. Cewch gipolwg yn y lluniau ar y gweithgareddau amrywiol a gynhaliwyd.

*Aled Davies*
*Cytûn / Cyngor yr Ysgolion Sul*



Leah yn darllen Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd ar y stondin



Hun-lun o Euron a'r gynulleidfa a ddaeth ynghyd i'r oedfa fore Sul





Bwrlwm y babell ar fore Llun




Gyda'r haf ar y gorwel, cofiwch rannu â phlant a phobl ifanc yn eich eglwysi chi am y cyrsiau fydd yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Coleg y Bala:


**Cwrs Haf 2024**
**29 Gorffennaf–2 Awst – i ieuenctid 11–15 oed**
Pedwar diwrnod yn llawn gemau, crefftau, chwaraeon, sioe dalent, disgo, gweithgareddau ar y llyn, trip, s'mores o amgylch y tân a llawer mwy. Yn ystod ein hamser gyda'n gilydd byddwn yn edrych ar y ffydd Gristnogol a sut mae'n berthnasol i ni heddiw. Y gost yw £130 ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau; mae'n hanner pris i'r 2il/3ydd plentyn o'r un teulu.

**Anhrefn Awst**
**12–15 Awst i blant 8–11 oed**
Bydd gemau gwirion, canu, storïau o'r Beibl, crefft, chwaraeon, gweithgareddau ar y llyn, s'mores o amgylch y tân, trip a llawer mwy. Y gost yw £100 ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau. Mae'n hanner pris i'r 2il/3ydd plentyn o'r un teulu.

**Souled Out**
**17–22 Awst i ieuenctid 15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc!**
Mae Souled Out yn gyfle grêt ar ddiwedd yr haf i ddal fyny gyda hen ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a mwynhau gweithgareddau hwyl! Mae'r prif sesiynau bob amser yn uchafbwynt, wrth i ni addoli Duw, dysgu mwy amdano drwy'r Beibl a gwrando ar storïau anhygoel am beth mae Duw yn ei wneud ym mywydau pobl! Bydd rhai seminarau ymarferol hefyd i arfogi ac ysbrydoli, a grwpiau bach i'n helpu i feddwl drwy'r hyn rydyn ni'n ei glywed. Bydd llwyth o bethau hwyl i bawb ei wneud hefyd! Dros y blynyddoedd, rydyn ni 'di mwynhau *inflatables* mawr, caffi acwstig, gemau pêl-droed, crefftau creadigol, padlfyrddio, s'mores rownd y tân, a mwy! Y pris yw £134!

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 27**
**Eglwys Waungoleugoed**

**Darllen: Ioan 19:17–27**

### Gweddi
Trugarha wrthym, Arglwydd, wrth feddwl ein bod yn rhoi ein gorau i ti. Cofiwn heddiw am yr oedrannus a'r mwyaf bregus yn ein mysg gan dderbyn bod modd i ni fod yn gefn iddynt fel rhan o'n gwaith fel aelodau o'th eglwys. Amen.

### Cyflwyniad
Un o ddarluniau hyllaf yr Efengylau yw'r croeshoelio ar Galfaria. Prin y byddem yn gweld unrhyw beth hardd na dymunol yn yr olygfa. Eto, mae Ioan am i ni sylweddoli bod Iesu yn gweld rhywbeth pwysig yno, sef fod Ioan yn sefyll wrth ochr Mair, ei fam. Wrth i Iesu wynebu ing yr hoelion yn ei gnawd ac artaith y croeshoelio, roedd am weld bod ei fam mewn dwylo diogel, ac yn gofyn i'r disgybl annwyl gymryd gofal ohoni. Mae'n ddarlun o Iesu yn ystyried anghenion y genhedlaeth hŷn yn gyffredinol, a'i fam yn benodol. Ymhen ychydig amser byddai'n ymbil ar ei Dad Nefol i faddau i'r rhai a'i croeshoeliodd, ond ar yr eiliad dan sylw mae'n gofyn i Ioan gymryd cyfrifoldeb newydd a gwahanol.

### Myfyrdod
Byddwn yn effro i sawl corff sy'n gwarchod yr henoed mewn cymdeithas, a darperir ystod eang o gartrefi gofal yn enw cynghorau lleol neu'n gartrefi preifat, rhai'n grefyddol eu natur ac eraill yn gwbl seciwlar. Mae Cartref Glyn Nest yng Nghastellnewydd Emlyn yn enghraifft dda o gartref gofal llwyddiannus sydd ag enw da am y gofal rhagorol a geir yno. Gellir enwi cartrefi gofal eraill, a diolchwn amdanynt.

Mater gwahanol yw bod eglwysi'n cynnig gwasanaeth amgenach nag arfer i helpu'r oedrannus, a bydd aelodau lleol yn falch o'r cyfle i wneud cymwynas. Yn y gogledd-ddwyrain, ceir eglwys sy'n gwneud gwaith arbennig, ac er nad yw'n gynulleidfa fawr ac nad yw'n hynod gyfoethog o ran adnoddau bydol, mae'n cyflawni gwaith gwerthfawr mewn sawl ffordd, ond yn arbennig gyda'r ddarpariaeth sydd yno ar gyfer yr henoed.

Ceir ganddynt un rhaglen sy'n cael ei galw yn 'Helpu'n Gilydd'. Nodir ar eu gwefan eu bod:

1) yn rhoi cefnogaeth drwy'r iaith Gymraeg i unrhyw un sydd yn unig, neu yn dioddef o salwch hirdymor, e.e. cancr/dementia, clefyd y galon, clefyd yr ysgyfaint a.y.b.;
2) yn rhoi seibiant a chymorth ymarferol i ofalwyr;
3) gall gwirfoddolwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant ymweld yn wythnosol neu bob pythefnos a bod yn glust i wrando, yn gymorth ymarferol fel casglu presgripsiwns/ helpu i ysgrifennu llythyrau a.y.b.;
4) mae gwasanaeth tylunio dwylo ar yr aelwyd ar gael;
5) gall teulu/ffrindiau neu asiantaethau gyfeirio pobl at yr eglwys;
6) nid oes cost i hyn, ac mae'n agored i bawb sydd yn byw yn Llanelwy, Dinbych, Rhuthun a'r pentrefi o'u hamgylch.

Pa sawl eglwys arall allai gynnig gwasanaeth tebyg i hyn ledled Cymru?

### Gweddi
Diolch, Arglwydd, am gariad Crist tuag at ei fam naturiol, a'r modd y mae'n ysbrydoli pobl i barchu'r oedrannus yn ein bro a'n byd. Rhannwn weddi o ddiolchgarwch am waith yr eglwys yn Waungoleugoed a'r goleuni maent yn ei rannu yn dy enw di. Boed i bob eglwys ddarganfod modd o warchod yr oedrannus yn ein mysg a lledu terfynau dy deyrnas. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. A oes perygl i ni feddwl am Iesu, Mab Duw, ac anghofio'i fod yn blentyn i'w rieni?
2. Beth yw'r cysylltiad rhwng y natur ddwyfol a'r reddf ddyngarol?
3. Prin y gall plant heddiw amgyffred pwysigrwydd creu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS), ond a oes perygl i ni addoli'r Gwasanaeth Iechyd fel duw, heb dderbyn ein bod yn cyd-dalu amdano ac yn awyddus i'w weld yn datblygu?
4. I ba raddau y byddwn yn effro i'r camdriniaethau y bydd henoed gwledydd tlawd yn eu dioddef heddiw?
5. Beth gall eich heglwys chi ei gynnig i wella amgylchiadau henoed eich ardal?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 9 Mehefin – dim rhaglen**

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 9 Mehefin, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Aled Davies, Chwilog

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 9 Mehefin, am 12yp**
Oedfa dan ofal Llunos Gordon, Llechryd

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Y Beibl a thrais: yr Asgell Dde Eithafol





Cynhaliwyd seminar bwysig, wedi ei noddi gan yr Academi Brydeinig, yn adeilad urddasol y Pierhead Bae Caerdydd ar 14 Mai yn dwyn y teitl, 'The Church, The Far Right and the Claim To Christianity'.

Gwahoddwyd cynrychiolaeth o holl enwadau Cymru i ddod at ei gilydd i ddysgu mwy am ddatblygiadau peryglus ac annerbyniol yng nghyd-destun Cristnogaeth gyfoes yng ngwledydd Prydain. (Er hynny dim ond 14 ohonom oedd yn bresennol.) Trefnwyd y digwyddiad gan y Centre for the Study of Bible and Violence sydd a'i bencadlys ym Mryste. Gellir cael mwy o wybodaeth am waith y ganolfan trwy ymweld â'i gwefan csbvbristol.org.uk. Sefydlwyd y ganolfan hon er mwyn astudio'r dehongli sydd ar y rhannau hynny o'r Beibl sy'n ymwneud â thrais a hyrwyddo heddwch a didreisedd.

### Dysgu a rhybuddio

Y ddau siaradwr oedd dwy o academyddion y ganolfan sef y Parchg Dr Helen Paynter a Dr Maria Power. Rhanasant gyda ni beth o ffrwyth eu hymchwil a'u pryder ynglŷn â'r Asgell Dde Eithafol yng ngwledydd Prydain sy'n dod yn fwy a mwy dylanwadol. O ganlyniad i hynny maent yn twyllo rhai Cristnogion i ymhél â'u syniadaeth wyrdroëdig. Yn yr hydref eleni cyhoeddir cyfrol yn dwyn y teitl *The Church, The Far Right, and the Claim to Christianity*. Bwriad y gyfrol fydd addysgu a rhybuddio Cristnogion am yr hyn sy'n digwydd gan roi arweiniad iddynt sut i ymateb yn fwyaf effeithiol. Cadeiriwyd y sesiwn gan Darren Miller, sy'n aelod o'r Senedd dros etholaeth gogledd-orllewin Clwyd gyda'r Toriaid.



### Britain First ac UKIP





Yr hyn sy'n peri pryder yw bod yr Asgell Dde Eithafol yn herwgipio Cristnogaeth gan gamddefnyddio adnodau o'r Beibl er mwyn hyrwyddo eu syniadaeth hiliol, ymfflamychol a threisgar. Y mae'r rhain yn cynnwys mudiadau fel UKIP, Britain First a National Action sydd ag elfennau neo-Natsïaidd. Gwaetha'r modd yn raddol y maent yn llwyddo i ddylanwadu ar feddylfryd pobl gyffredin fel eu bod hwy yn mynd i gredu'r lol beryglus y maent yn ei gyhoeddi. Dysgant fod mewnfudwyr, ymgeiswyr lloches a diwylliannau amgen yn tanseilio'r diwylliant cynhenid gwyn Cristnogol hanesyddol ym Mhrydain ac mai ein cyfrifoldeb ni yw ei amddiffyn ar boen ein bywyd. Gwaetha'r modd y mae eu hagweddau'n gul, twyllodrus a chelwyddog ac yn hyrwyddo casineb trwy bolareiddio pobl o fewn i'r gymdeithas. Ac wrth gwrs y mae rhai Cristnogion yn ddigon diniwed i gredu eu rhethreg niweidiol. Un o'u tactegau yw gorymdeithio trwy ardaloedd lle mae'r mwyafrif o'r trigolion yn Fwslemiaid gan gario croesau gwynion (gweler y llun). Yn naturiol y mae hyn yn annoeth ac yn corddi'r dyfroedd. Noddir eu gweithgareddau gan unigolion cefnog sydd am hyrwyddo syniadaeth asgell dde.

### 10 argymhelliad

Y mae'r ganolfan wedi creu 10 argymhelliad er mwyn cynorthwyo eglwysi i wrthsefyll dylanwad yr Asgell Dde Eithafol. Dyma syniad bras ohonynt: 1. Siarad yn ostyngedig. 2. Gwrthod trais. 3. Osgoi defnyddio stereoteipiau. 4. Annog trafodaeth. 5. Peidio â llyncu syniadaeth. 6. Delio gyda'r rhesymau am anniddigrwydd cymdeithasol. 7. Bod yn broffwydol. 8. Noddi gwaith ieuenctid. 9. Hyrwyddo llythrennedd Beiblaidd. 10. Dysgu o hanes.

Roedd hon yn sesiwn fuddiol oedd yn ein helpu i ddeall yn well ddatblygiadau sy'n digwydd o'n cwmpas gan ein harfogi i ymateb yn ddoeth a Beiblaidd i'r heriau hyn.






# Barn Annibynnol

## Gwireddu dymuniad

Fel ailymweld â llecyn, man neu ardal sydd wedi eich cyfareddu yn y gorffennol, yn fy hanes innau, Pwllderi yn Sir Benfro, Nant Gwrtheyrn ym Mhen Llŷn neu Benrhyn Dingle yn Iwerddon, cefais innau'n ddiweddar y pleser o ailymweld â nofelau oedd wedi fy nghyfareddu yn y gorffennol. Nofel oedd yn rhan o gwricwlwm lefel O Llenyddiaeth Gymraeg (1976–78) a nofel arall a brynais yn ail-law a'i darllen yn ystod fy mlynyddoedd cynnar fel gweinidog. A do, cefais fy swyno drachefn.




### Pleser o ddarllen nofelau

Y bardd a'r llenor o Sir Gaerfyrddin sef W. Leslie Richards ydyw awdur y nofel gyntaf rwyf am rannu gyda chi. Brodor o Gapel Isaac ac un, wedi ei gyfnod yn y Coleg ger y Lli, a dreuliodd ei yrfa yn sir ei febyd. Rwy'n hoff iawn o farddoniaeth Leslie Richards ac mae angen i mi gael gafael ar rai o'i gyfrolau cerddi. Dim ond y gyfrol Adledd sydd gennyf innau sy'n cynnwys amryw o'i glasuron megis 'Y bröydd hyn', 'Blynyddoedd' a 'Gloria Mundi'. Rwy'n siŵr y bydd modd cael gafael ar y cyfrolau cerddi yn llyfrgell Caerfyrddin. Cyfrol werthfawr yw'r gyfrol a olygwyd gan ei ferch Eleri Davies sef *Cofio W. Leslie Richards*. Ond am y cyntaf o'i nofelau sef *Yr Etifeddion* rwyf am gyfeirio.

Roeddwn wedi dymuno darllen y nofel eto ers blynyddoedd. Roeddwn yn cofio teitl y nofel wedi ei darllen tra bûm yn astudio llenyddiaeth Gymraeg yn yr ysgol ers talwm. Cofio 'mod i wedi mwynhau darllen y nofel, ond y cyfan a gofiwn oedd ei bod yn cychwyn gydag anghydfod chwerw wedi darllen ewyllys yr ymadawedig ar ddiwrnod yr angladd. Cefais oriau o fwynhad pur yn darllen y nofel eto, a lifodd yn fyrlymus o glawr i glawr.

### Darllen y nofel eto

Nofel yw *Yr Etifeddion* o ran stori yn perthyn i flynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif ac wedi ei gosod mewn cyd-destun gwledig, megis ardal febyd yr awdur, dybiwn i, a hynny yn oes marchogaeth ar geffyl. Rwy'n perthyn i gefndir amaethyddol fy hunan, felly roedd uniaethu gyda rhediad y nofel yn ddarllen cyfforddus. Ond wedi darllen y stori ddychmygol, gyda'i chymeriadau credadwy, roedd amryw o wirioneddau digon perthnasol yn cael ei daro yn y nofel, gwirioneddau yn ymdrin â themâu megis cariad, caredigrwydd, casineb, cenfigen a rhagrith, themâu sy'n gwneud darllen nofel bob amser yn ddifyr. Ac am 'sant pen hewl a diawl pen pentan' oedd Nathaniel Jones, Bryn-glas, oedd yn reial rhagrithiwr. Yn mynychu'r cwrdd pob Sul, ond o gofio mor greulon y gwnaeth yntau a'i ail briod Leisa fagu Anna, yr unig blentyn i oroesi o'i briodas gyntaf, dyna yn wir ddadlenni beth oedd rhagrith. Ac mae cymaint o wirioneddau oesol yng nghwrs y nofel megis y dweud: 'Un o drasiedïau pennaf yr hil ddynol, yn ddiamau, yw analluu un genhedlaeth i drosglwyddo i'r genhedlaeth a ddaw ei holl ddoethineb a phrofiadau. Un o'i bendithion hefyd yw na ddichon un genhedlaeth etifeddu holl waeau a phrofedigaethau'r genhedlaeth o'i blaen yn eu ffyrnigrwydd cynhenid.' Digon gwir, ac eto go brin y bydd y boen yn hanes Palestiniaid Llain Gaza yn lleddfu am genedlaethau, os nad canrifoedd.




### Nofel Feiblaidd hyfryd

Y nofel arall y mwynheais ei darllen oedd *Fy Mab Onesimus* gan William Williams, gweinidog canol yr ugeinfed ganrif gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Nofel ddychmygol eto o ran y stori ond yn seiliedig mewn hanes yng nghyfnod yr Ymerodraeth Rufeinig yn oes y Testament Newydd ac ar bennod hanes dychmygol y cymeriad Onesimus, y caethwas ifanc a ddihangodd o gartref ei feistr Philemon yng Ngholosia. Mae'n portreadu'n afaelgar bywyd Rhufain yn y cyfnod a'r stori bosibl sydd y tu cefn i lythyr Philemon yn y Testament Newydd. Yn wir mae'n fanteisiol bod gennych wybodaeth dda o lythyron yr Apostol Paul, a'r cyfeiriadau at ei gyfarchion terfynol sydd yn ei lythyrau i chi fedru gwerthfawrogi'r ysgrifennu a'r portreadu gwych sydd yn y nofel. Ac yn gweu trwy'r cyfan – er gwaethaf rhagrith y caethwas Truffo, goruchwyliwr y caethweision yng nghartref Philemon – yr achos y tu cefn i'r ffoi yn hanes Onesimus, diolch am y stori serch a chariad yn hanes Onesimus a Terpusa, sy'n waelodol i'r nofel ddychmygol. Ie gwirioneddau mawrion yn y nofel hon eto.

### Prydferthwch y Gymraeg

Yr hyn a'm cyfareddodd innau yn ychwanegol mewn perthynas â'r ddwy nofel a'r ddau awdur oedd gafael yr awduron ar yr iaith Gymraeg a'u meistrolaeth ar gyfoeth geirfa'r iaith Gymraeg sydd yn eu hysgrifennu. Fel y dywedodd Islwyn Ffowc Elis wrth gyflwyno'r nofel *Fy Mab Onesimus*: 'mae'r iaith firain yn rhoi pleser ar ei lefel ei hun.' Trueni na fyddai wedi bod gennyf innau *Y Geiriadur Mawr* wrth fy mhenelin wrth ddarllen *Yr Etifeddion* 'nôl adeg dyddiau'r ysgol uwchradd! Ac fel yr ychwanegodd Islwyn Ffowc Elis yn ei eirda, 'ond y mae yma ddychymyg nofelydd a synnwyr dramatig sicr.' Ac fe ellir dweud hynny yn sicr am y ddwy nofel, y ddwy ohonynt yn perthyn i ddiwylliant llenyddiaeth Gymraeg ar ei gorau.

### Y wers

Pam rhannu hyn gyda chi? Wel mae gennyf gopi o *Fy Mab Onesimus* ar fy silff lyfrau, ond i gael gafael eto ar gopi o *Yr Etifeddion*, diolch ei fod ar gael i'w fenthyg i'w ddarllen trwy wasanaeth Cyngor Sir Gaerfyrddin a llyfrgell y dref. Yn ein dyddiau ninnau gyda'r siarad am lymder sydd, rydym yn clywed am y toriadau ariannol y bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth yn gorfod eu gwneud i oroesi, ac rydym wedi gweld tros y blynyddoedd diwethaf fel y mae llawer o gynghorau, yn siroedd a phlwyfi, wedi ac yn dioddef oherwydd wynebu toriadau ariannol mewn cyfnodau o brinder arian. Duw a'n gwaredo, mae angen i ni fod ar ein gwyliadwriaeth, ac i gadw'n llyfrgelloedd bydd angen i ni frwydro ac ymgyrchu dros warchod ein diwylliant a'n treftadaeth, yn lleol ac yn genedlaethol.

**Emyr Gwyn Evans**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Rhaglen y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Morgannwg 2024

*Oni nodir yn wahanol, cynhelir y cyfarfodydd ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd*

## DYDD IAU, 11 Gorffennaf 2024

**1.30** **CYNHADLEDD 1 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Defosiwn yng ngofal y Parchg Owain Llŷr Evans

**2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cyflwyno Adroddiad Undeb Dwyrain Dinbych a Fflint 2023 (*y Llyfr Gwyrdd*)
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2025 Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol *

**3.00** Te a chacen a chroeso
Croesawu a derbyn ymwelwyr

**4.00** **Cyfarfod Heddwch ***
Parchg Ron Williams: 'Llais o Fethlehem'
Cadeirydd: Parchg Guto Prys ap Gwynfor

**5.30** Egwyl

**6.00** Swper

**7.30** **Noson yng nghwmni Delwyn Siôn a chyfeillion ***

## DYDD GWENER, 12 Gorffennaf 2024

**9.30** **CYNHADLEDD 2 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Defosiwn yng ngofal y Parchg Owain Llŷr Evans

**10.00** Etholiadau:
- 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
- Hyd at 3 i wasanaethu ar y Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
- cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn

Adroddiad y Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau *
Y Cyfansoddiad
Apêl Ffynhonnau Byw Cymorth Cristnogol – diweddariad

**11.00** Te/coffi

**11.30** Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau

**12.00** Anerchiad gan Parchg Susan Durber, Llywydd Cyngor Eglwysi'r Byd *
*'Faith, unity and mission in Wales 2025: encouragement from Nicaea 325'*
Cadeirydd: Parchg Jeff Williams

**1.00** Cinio

**2.00** **CYNHADLEDD 3**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Penderfyniadau:
Penderfyniad 1: Swyddog i ddarparu arweiniad a chymorth ymarferol
Adroddiad y Trysorydd
Derbyn gweddill cofnodion y *Llyfr Glas*
Cydnabod gwasanaeth y cyn Ysgrifennydd Gweinyddol, Miss E. Ann Williams a'r cyn Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Wasg, Mr Alun Lenny
Unrhyw Fater Arall
Y Fendith

**3.30** Te/coffi

**4.00** **Cyfarfod Hanes ***
'Cofio Wncwl Bill' sgwrs gan Richard Huws ar fywyd a gwaith Rhys Nicholas (1914–96)

**5.00** Egwyl

**5.30** Swper

**7.30** **OEDFA O FAWL** yn Tabernacl, Efailisaf *
Llywydd: Parchg Jeff Williams
Galwad i addoli
Emyn
Darllen: Sian Meinir
Gweddïo: Parchg Emyr Gwyn Evans
Gweddi'r Arglwydd
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Emyn
Coffáu'r rhai a fu farw. Gweddi: Parchg Allan Pickard
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Cyflwyno tystysgrifau hyfforddiant
Emyn
Pregeth: Parchg Euron Hughes
Emyn
Y Fendith

## DYDD SADWRN, 13 Gorffennaf 2024

**9.30** Defosiwn yng ngofal Mr Emlyn Davies *

**10.00** **Cyflwyniad eglwysi ***
Llanfair Pen-rhys, Tabernacl Efailisaf a'r Angor Grangetown

**11.00** Te/coffi

**11.30** **CYNHADLEDD 4 ***
Cadeirydd: Mr Dafydd Roberts
Emyn
Defosiwn: Parchg Noel Davies
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Anerchiad y Llywydd
Emyn
Y Fendith

**12.30** Cinio ac ymadael

*Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau*
** Caiff y sesiynau hyn eu ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*